honno

Gwasg Menywod Cymru
Welsh Women's Press

Disgrifiad Swydd: Rheolydd Golygyddol a Phrosiect Llawrydd Honno (EPM)

Oriau: Mae hwn yn gontract tymor penodol chwe mis, 30 awr yr wythnos o waith golygyddol a rheoli prosiect gyda rhai tasgau rheoli'n ymwneud â hwyluso gweithrediad Honno. Gall yr EPM drefnu i weithio eu 30 awr yr wythnos i gydfynd ag ymrwymiadau eraill. Bydd angen medru cysylltu â nhw'n hawdd yn ystod yr amseroedd y cytunwyd arnynt yn ystod yr wythnos.

Contract llawrydd chwe mis yw hwn. Bydd yn cael ei weithio o gartref yr EPM. Efallai y bydd angen iddynt ddod i'r swyddfa ar gyfer cyfarfodydd achlysurol gyda staff Honno pan fydd y swyddfa wedi agor eto, ond gallant ddewis cael y cyfarfodydd hyn drwy ddolen fideo os mai dyna eu dymuniad.

Mae'r swydd hon yn bennaf ar gyfer cyflenwi absenoldeb salwch Golygydd Honno– ni fedrwn ragweld ar hyn o bryd pa mor hir y bydd angen iddi fod i ffwrdd o'r gwaith. Os daw'r Golygydd yn ôl i'r gwaith cyn i'r chwe mis ddod i ben, byddwn yn dal i fod eisiau i'r EPM weithio gweddill y contract chwe mis.

Caiff y swydd hon ei harolygu gan bwyllgor Rheoli Honno a dylid dwyn unrhyw gwestiynau neu broblemau i'r pwyllgor. Gellir gweld termau ac amodau eraill yn y llythyr cynnig a'r contract. Bydd rhai o'r polisîau sydd yn y llawlyfr staff, megis trin treuliau, hefyd yn berthnasol i gontractau llawrydd.

- **Cynhyrchu** – Byddant yn gyfrifol am drefnu golygu copi, cysodi, prawfddarllen ac argraffu pob llyfr a gyhoeddir gan Honno yn ystod y cyfnod chwe mis. Y cynllun ar hyn o bryd yw cyhoeddi 6 llyfr yn ystod y chwe mis.

.

  - I fanylu mae hyn yn golygu:
    - Creu amserlen gynhyrchu ar gyfer pob teitl newydd
    - Cadw calendr cynhyrchu a sicrhau bod y dyddiadau cau yn cael eu gwireddu
    - Clasuron – cysylltu â Jane Aaron a golygydd y teitl unigol; trefnu sganio'r testun gwreiddiol os oes angen, gwirio deunydd sydd wedi ei sganio neu gael deunydd sydd wedi ei sganio'n barod ar gyfer ei gysodi
    - Sicrhau bod cysodwyr, golygyddion copi, prawfddarllenwyr ac argraffwyr yn derbyn yr hyn sydd arnynt ei angen mewn da bryd

    - ELyfrau: trefnu creu eLyfrau gan gysodydd, eu gwirio, a'u hanfon at Faber Factory

- Golygyddol–yn dibynnu ar y prosiect gall y byddant yn golygu neu'n trefnu i olygydd llawrydd arall olygu testun y llyfr. Gellir cytuno ar hyn gyda'r pwyllgor yn dibynnu ar bwysau gwaith.

- Os oes angen ailargraffu llyfr, byddai hyn yn cael ei drafod gan y rheolydd Marchnata ac/neu bwyllgor. Os y cytunir i ailargraffu llyfr, byddai'r EPM yn sicrhau ei fod yn cael ei argraffu.

- Byddantyn bwynt cyswllt ar gyfer awduron, gweithwyr llawrydd, dylunwyr, cysodwyr ac argraffwyr, a bydd angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y llyfrau iddyn nhw a staff Honno.

- Byddant yn defnyddio'r post@honno.co.uk ar gyfer gwaith Honno ac hefyd yn ateb unrhyw gwestiynau a ddaw i'r cyfeiriad ebost hwnnw neu anfon ebyst ymlaen at aelodau'r pwyllgor os oes angen. Bydd hyn yn cynnwys sgriptiau a anfonir at Honno, y bydd angen iddynt eu cofnodi a'u trosglwyddo i bwyllgor sgriptiau Honno.

- Sgriptiau–yn dibynnu ar alwadau eraill ar eu hamser, byddant yn ymuno â chyfarfoddd pwyllgor sgriptiau Honno, i drafod prosiectau'r dyfodol, a helpu'r pwyllgor sgriptiau i ateb y rhai sydd wedi anfoncyflwyniadau.

- Byddant yn gweithio gyda'r Rheolwr Marchnata ar greu broliant ayyb ar gyfer deunydd marchnata; ar ddiweddaru'r wefan a helpu i ddiweddaru cofnodion arlein ar gyfer y llyfrau ar safleoedd fel Goodreads. Gall y byddant hefyd yn gweithio gyda'r Rheolwr Marchnata ar gopi ar gyfer yr e-gylchlythyrau yn ôl yr angen.

- Cyfarfodydd cynhyrchu – Cynhelir cyfarfodydd cynhyrchu fel arfer unwaith bob pythefnos ar fore dydd Mawrth drwy gyfrwng Zoom a disgwylir i'r EPM fynychu'r rhain os yn bosib.Cânt eu cynnal gyda'r EPM, y Rheolwr Marchnata ac o leiaf un aelod o'r pwyllgor. Yn syml iawn, mae'r cyfarfodydd hyn yn trafod ble mae'r llyfrau ar yr amserlen ac yn trafod unrhyw broblemau. Bydd yr EPM yn cadw cofnodion ar ble mae'r llyfrau ar yr amserlen.

- Byddant yn adrodd i bwyllgor Honno ar unrhyw faterion yn codi sy'n ymwneud â hwyluso gweithrediad eu swydd. Gallant ddewisdodi gyfarfodydd pwyllgor Honno a chyfarfodydd eraill, os dyna eu dymuniad. Nid yw'n orfodol.

Dros y chwe mis, gall y bydd yr EPM yn gweithio mewn dulliau eraill gyda'r Golygydd a'r Rheolydd Marchnata, wrth i brosiectau ddatblygu. Dylid dwyn unrhyw ansicrwydd am eu tasgau i'r tîm AD.

GwasgMenywodCymruHonno Welsh Women's Press
01970 623150 | www.honno.co.uk
facebook.com/honnopress
twitter.com/honno / twitter.com/honno_clas
Instagram: @gwasghonnopress